Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Glynrhedyn**

**Ysgol Llyn-y-Forwyn**
**Darran Terrace**
**Ferndale**
**CF43 4LG**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âCylch Meithrin Glynrhedyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Glynrhedyn |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Mawrth 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Cânt gyfleoedd i ddatblygu ystod dda o sgiliau drwy gymryd rhan mewn profiadau chwarae da. Mae'r plant yn ffurfio perthynas agos â'i gilydd a'r ymarferwyr sy'n arwain at ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae'r ymarferwyr yn broffesiynol ac yn cydweithio'n dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth o sut i gadw'r plant yn iach. Maent yn cynllunio gweithgareddau, sy'n ymateb i ddiddordebau a syniadau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn dilyn ac yn deall polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau lles plant yn effeithiol.

Lleolir y cylch o fewn ysgol gynradd. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac wedi'i drefnu'n dda ar gyfer diddordebau'r plant. Mae ardaloedd dan do ac awyr agored ar gael i'r plant fodd bynnag nid yw'r amgylchedd yn gwbl addas.

Mae'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r ymarferwyr yn eu rolau ac yn buddsoddi yn natblygiad ymarferwyr, gan sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwnânt welliannau lle bo angen er lles y plant yn eu gofal. Mae partneriaethau gyda rhieni, gwarchodwyr a'r ysgol yn gryf.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y cylch. Maent wedi datblygu perthynas agos gyda’r ymarferwyr ac yn hyderus i fynd atynt am arweiniad neu gysur. Mae gan y plant ymdeimlad da o berthyn, ac maent yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol. Maent yn mwynhau amser byrbryd cymdeithasol, gan sgwrsio'n hapus gyda'u ffrindiau o amgylch y bwrdd.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau ac yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn eu cefnogi. Er enghraifft, mae’r plant yn gofyn am help i wisgo dillad ar eu tegan. Maent yn symud yn rhwydd rhwng y gweithgareddau tu fewn ac yn penderfynu ar yr amser maent yn treulio ar y gweithgareddau unigol.

Mae’r plant yn datblygu medrau cymdeithasu da. Maent yn croesawu ffrindiau yn frwdfrydig gan gyfarch ei gilydd ac mae’r mwyafrif yn cyd-chwarae’n hapus. Er enghraifft, maent yn cael hwyl wrth rasio ar feiciau a cherbydau yn yr ardal allanol. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr, cyfoedion ac ymwelwyr. Maent yn gallu aros eu tro pan fydd ymarferwyr yn gweini byrbryd, gan ddiolch iddynt am eu bwydydd a'u diodydd.

Mae’r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael. Maent yn rhydd i archwilio'r brif ystafell yn yr amgylchedd tu fewn a threulio amser ar weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Er enghraifft, dewisodd rhai plant greu marciau a thynnu lluniau ar y bwrdd gan drafod eu lluniau a chanmol gwaith ei gilydd. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau priodol o amser yn ystod gweithgareddau crefft, chwarae dychmygus a gemau. Mae llawer o'r plant yn awyddus i ymuno mewn canu grŵp ac yn ymgysylltu â chwestiynau oedolion yn ystod amser stori.

Mae’r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth priodol. Amser mynd adref, anogir y plant i wisgo eu cot ag i gymryd cyfrifoldeb am eu heiddo. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd, nid oes ganddynt gyfle i weini eu bwyd a'u diod eu hunain. Maent yn symud yn hyderus o amgylch yr ardaloedd dysgu, gan ddewis adnoddau i gefnogi eu diddordebau. Er enghraifft, mae’r plant yn gwybod ble i ddod o hyd o’u hoff deganau ac yn ei hymestyn o’r droriau yn annibynnol.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae’r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'u dyletswydd i adrodd unrhyw bryderon i'r person cofrestredig. Maent hefyd yn ymwybodol o'u dyletswydd unigol i adrodd i dîm diogelu'r awdurdod lleol pe bai angen. Mae’r ymarferwyr yn cadw cofnodion yn ymwneud â damweiniau a digwyddiadau sy'n cael eu llofnodi gan rieni. Maent hefyd yn cofnodi unrhyw anafiadau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, nid oes system ffurfiol ar waith i gofnodi ac adolygu'r rhain. Mae gan yr ymarferwyr dystysgrifau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig dilys sydd yn eu cefnogi i ddelio â mân ddamweiniau. Maent yn hybu bwyta'n iach drwy baratoi byrbryd iach dyddiol, gyda llaeth a dŵr i yfed. Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo lles corfforol plant yn llwyddiannus trwy weithgareddau fel ioga a dawns yn ogystal â chwarae yn yr awyr agored pob dydd ar amser penodol. Mae gan ymarferwyr sydd yn paratoi bwyd dystysgrifau hyfforddiant hylendid bwyd perthnasol ac maent yn dilyn gweithdrefnau glanhau cywir fel rhan o'r broses rheoli heintiau er mwyn cadw plant yn iach ac yn ddiogel. Cwblhawyd archwiliad rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod yr arolygiad.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas agos a chynnes gyda’r plant ac maent yn eu trin gyda gofal a pharch. Maent yn dilyn y polisi ymddygiad ac yn gosod esiampl dda o ymddygiad cadarnhaol drwy fanteisio ar bob cyfle i ganmol y plant. Mae’r ymarferwyr yn annog moesau da ac yn atgoffa plant i ddweud '*plîs*' a '*diolch'* drwy gydol y dydd. Maent yn creu perthynas gadarnhaol gyda phlant yn eu gofal. Wrth i blant chwarae, mae’r ymarferwyr yn dangos diddordeb mawr yn eu gweithgareddau ac yn trafod tasgau mewn modd tawel a chefnogol. Er enghraifft, gwelsom ymarferwyr yn cynnig cefnogaeth ac atebion amgen pan oedd plant yn dewis dillad ar gyfer eu cymeriadau. Ymatebodd y plant drwy ddefnyddio'r un iaith gadarnhaol â'i gilydd. Mae hyn yn cefnogi rhyngweithio cadarnhaol rhwng plant.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth addas o ddysgu sydd yn seiliedig ar chwarae. Maent yn casglu gwybodaeth am blant ag yn cofnodi eu cyraeddiadau drwy arsylwadau. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio’r wybodaeth yma er mwyn cefnogi plant yn eu chwarae. Mae’r cylch yn trosglwyddo plant i’r ysgol gynradd Gymraeg ac mae’r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn hyrwyddo'r Gymraeg bob amser. Maent yn fedrus wrth drochi'r plant yn y Gymraeg drwy ganeuon a straeon yn ogystal â gweithgareddau â ffocws fel y gofrestr ddyddiol. Wrth gyfathrebu, defnyddir y Gymraeg yn gyntaf, ond cynigir y cyfieithiad Saesneg os oes angen, i ddiwallu anghenion y plant. Mae llawer o ymarferwyr yn hyrwyddo dysgu plant drwy gwestiynau priodol. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd chwarae, maent yn gofyn cwestiynau addas fel *"pa liw yw hwn?"* Yn ystod amser byrbryd, maent yn cymryd cyfleoedd i atgyfnerthu iaith fel *"wyt ti eisiau mwy?"* a *"diolch yn fawr."* Mae’r ymarferwyr yn cynllunio gwaith thematig sy'n briodol i oedran y plant ac mae'r gweithgareddau'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau yn dilyn diddordebau’r plant.

## Yr Amgylchedd **Digonol**

Mae gan arweinwyr systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod systemau derbyn ymwelwyr ac ar gyfer derbyn a chasglu plant ar ddiwedd sesiynau yn drwyadl. Mae'r arweinwyr yn cadw cofrestr ymarferwyr a rhoddwyd system ar wahân ar gyfer cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael ymarferwyr yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu arferion dril tân ac mae'r rhain yn cael eu hamseru, eu dyddio a'u gwerthuso. Mae deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd plant. Mae arweinwyr yn sicrhau fod asesiadau risg ar waith ar gyfer ardaloedd dan do ac awyr agored, ac mae'r rhain yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol mae'r ymarferwyr yn eu defnyddio. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi'r holl risgiau diangen i blant. Mae'r arweinwyr yn cydweithio gyda'r awdurdodau'r ysgol sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw, a gwasanaethu cyfleustodau.

Mae'r cylch wedi'i leoli mewn ystafell yn yr ysgol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn canolbwyntio ar blant. Mae gan blant le i chwarae a dysgu priodol mewn un ystafell fawr yn ogystal ag ardal ar wahân i fwyta. Mae'r cylch yn rhannu tai bach gyda'r ysgol ac felly mae'r plant yn cael eu goruchwylio i gyrraedd y cyfleusterau hyn. Mae'r arweinwyr yn darparu lle digonol ar gyfer newid cewynnau sy'n sicrhau preifatrwydd ac urddas plant. Maent yn sicrhau bod plant yn cael chwarae yn yr awyr agored addas bob dydd ar amser penodol. Nid oes cyfle am fynedfa ddi-dor i'r awyr agored gan eu bod yn rhannu'r ardal tu allan gyda dosbarth meithrin yr ysgol. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol bod angen cynnal a chadw rhannau o'r adeilad. Maent yn gweithio'n agos gyda'r ysgol a'r awdurdod lleol i sicrhau cynlluniau ar gyfer symud i adeilad newydd yn y dyfodol agos.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod amrywiaeth addas o adnoddau ar gael yn yr amgylchedd chwarae. Mae cynllun yr ardal tu fewn yn caniatáu i blant archwilio'n rhydd ac mae'r plant yn gyfarwydd ag estyn offer ac adnoddau sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae'r holl adnoddau yn briodol ar gyfer oedran a chamau datblygiad plant ac yn hyrwyddo eu chwilfrydedd. Mae datblygiad personol a chymdeithasol plant hefyd yn cael ei ddatblygu trwy gael mynediad at deganau a llyfrau amlddiwylliannol. Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd i blant chwarae yn egnïol yn yr ardal awyr agored. Mae'r plant yn edrych ymlaen at chwarae ar y beiciau a'r cyrsiau rhwystrau teiars.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y cylch yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn awyddus i ysgogi gwelliant. Diweddarwyd y datganiad o ddiben yn ystod yr arolwg er mwyn adlewyrchu trefniadau'r cylch yn gwbl glir a danfonwyd copi at AGC. Mae'r person â chyfrifoldeb yn brofiadol ac mae ganddynt weledigaeth dda ar gyfer y lleoliad, a chaiff ei rannu'n effeithiol â'r ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chedwir cofnodion priodol. Fodd bynnag, nid oes polisi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar waith sydd yn diffinio cyfrifoldebau a dydy ymarferwyr ddim wedi derbyn hyfforddiant ADY cyfredol.

Mae'r arweinwyr yn rheoli ymarferwyr yn effeithiol ac yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn. Maent yn sicrhau bod digon o ymarferwyr cymwysedig i ofalu am y plant a bod y gymhareb rhwng yr oedolion a'r plant yn cael ei chynnal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ymarferwyr yn cwblhau cymwysterau gorfodol a bod gan yr holl ymarferwyr dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyfredol. Maent yn cynnal cyfarfodydd arfarnu rheolaidd sydd yn cael eu cofnodi. Caiff yr ymarferwyr gyfleodd cyson i drafod mewn cyfarfodydd ac mae goruchwyliaeth ymarferwyr yn digwydd yn anffurfiol. Maent yn cynllunio yn briodol ar gyfer datblygiad ymarferwyr ac yn sicrhau bod diwylliant o gefnogaeth yn bodoli. Teimla'r ymarferwyr eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn mwynhau gweithio fel rhan o'r tîm. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar brofiadau'r plant sy'n mynychu'r cylch.

Mae gan arweinwyr bartneriaethau da iawn gyda holl rhanddeiliaid. Mae ganddynt gysylltiadau cryf iawn gyda'r ysgol ac yn manteisio ar gyfleoedd i ymuno mewn gweithgareddau ar y cyd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau clir ac effeithiol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth a throsglwyddo i'r ysgol. Mae partneriaethau gyda'r rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid eraill yn dda iawn. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r lleoliad a bod eu plant wrth eu bodd yn mynychu. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod hunanwerthuso ar waith ac yn nodi meysydd o gryfderau a ychydig feysydd i wella trwy ystyried barn eraill. Maent yn barod i dderbyn adborth a byddant yn gweithredu ar faterion a ddaw i'w sylw.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Standard 5 - Records | Ffurfioli'r system o gofnodi pryderon am blant a'u hadolygu. |
| Standard 24 - Safety | Adolygu'r asesiadau risg. |
| Standard 4 - Meeting individual needs | Sicrhau bod polisi ADY ar waith sydd yn diffinio cyfrifoldebau a threfnu hyfforddiant ADY ar gyfer ymarferwyr. |

Where we think it helpful, we may make best practice recommendations. These are to encourage settings that are doing well to become even better at helping children thrive.

| Arfer Gorau |
|---|
| Argymhelliad (argymhellion) |
| Cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau annibyniaeth yn ystod amser bwyta. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/01/2024